# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 10fed Mai 2021 am 7yh.

1. Cyfarfod Rhithwith drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
   *Huw Edwards (Cadeirydd), Rhian Hayes, Gwilym Morris, Carol Jones, Debra Griffiths, Wendy Morris Griffiths, Gwynfor Owen, Aled Morris Jones.*

3. Ymddiheuriadau
   *Richard Owain Jones, Richard Griffiths*

4. Datgan Diddordeb
   *Dim*

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 12fed Ebrill 2021.
   *CJ yn cynnig, GM yn eilio derbyn a cymeradwyo'r munudau.*

6. **Materion yn codi**

   i) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (cymru) 2021
   Deddf yn gwneud darpariaeth barhaol ar gyfer cyfarfodydd o bell (aml-leoliad) a chyhoeddi dogfennau yn electronaidd.

   *ME os ydy hi yn opsiwn drefnu cyfarfod mewn person o hyn ymlaen, gan wneud yn siwr fod modd hefydi rhai aroladau ymuno ar rhithwith.*

   ii) Trefniadau Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Rhosybol

   *Pawb yn gytun i gyfarfod 7 Mehefin 2021.*

   iii) Mantolen Cyfrifon 2020/21
   Cyfrifon 2020/21 cyn iddynt fynd i'r archwiliwr mewnol – er gwybodaeth
   Dim mantolen banc 31/03/2021 wedi cyraedd eto, bob dim yn cael ei basio i'r archwiliwr pan dderbynir hwnnw.

   iv) Yswiriant
   Cynnig gan Zurich Municipal i gymeryd cytundeb tymor hir am y prisiau canlynol (pris yn medru codi bob blwyddyn o fewn y cytundeb 'index linked') :
   5 mlynedd am £1470.84 bob blwyddyn
   3 mlynedd am £1549.46 bob blwyddyn

   Neu cynnig gymeryd blwyddyn yn unig am £1628.06.
   Er gwybodaeth:
   - Cytundeb 5 mlynedd wedi ei gytuno yn flaenorol yn 2016.
   - 2019/20 £1442.77
   - 2020/21 £1456.59

*Go – derbyn cytundeb 5 mlynedd, GM yn eilio.*

v) Cae Chwarae
Disgwyl gwybodaeth gan contractwr torri gwair ynghlyn a defnyddio 'weedkiller'
RosPA yn caniatau defnydd os mae'n cael ei rhoi gan contractwr
https://www.rospa.com/play-safety/advice/chemicals
Contractwr yn defnyddio MMC Pro (Detergent)
Hwn yn cael ei ddefnyddio gan Ysgolion Ynys Mon, Bysai'r contractwr yn cau y safle tra yn ei rhoi a dim ond agor y safle pan mae wedi sychu, mae'n saff arol sychu.
*Cario ymlaen gyda gofyn i'r contractwr gwneud y gwaith o fewn y canllawiau.*

Contractwr torri gwair wedi gwneud toriad cyntaf y flwyddyn ond wedi gorfod gadael oherwydd nofer mawr o bobl yn cyraedd y safle i ddefnyddio'r cae chwarae, felly y cae ddim wedi gorffen ei dorri i gyd.

vi) Cilfan Gorslwyd
Dim gwybodaeth gan Adran Priffyrdd CSYM hyd yn hyn

*Cyngor gan Un Llais Cymru – os oes ymddygiad bygythiol tuag at unrhywun yn defnyddio'r gilfan, y cyngor yw adrodd hyn i'r heddlu.*

vii) Mari – Ymddiswyddo
*ME am ddrafftio hysbyseb, cytuno ar 5 awr yr wythnos*

**7. Gwybodaeth**

a) Digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru /SLCC – 13 Mai 2021 (ebost 09/05/21)
Archebu lle ar www.slcc.co.uk/ovw

b) Gweminar fyw: Eich Tref, Eich Dyfodol – Archwilio Cymru – 10.30yb – 12yp
20 Mai 2021 drwy zoom (ebost 09/05/21)

c) Un Llais Cymru – Hyfforddiant o bell (ebost 09/05/21)

d) Grantiau Cymunedol Tesco (ebost 09/05/21)
Cyfle i enwebu elusen i dderbyn grant
https://www.groundworknorthwales.org.uk/projects-and-education/projects/tesco-community-grants-programme/

e) CSYM – Gwahardd Traffic Trwodd dros dro (ebost 09/05/21)
Maenaddwyn i Llanerchymedd
23 Mai 2021
Disgwylir i orffen yr un diwrnod gorchymyn yn agored i'w gau hyd at 4 wythnos os bydd angen.

f) Un Llais Cymru / Gwelliant Cymru
Adfer o COVID-19 - galluogi arweinyddiaeth a phartneriaethau cymunedol allweddol
3yh – 4.30yh 19 Mai 2021
https://forms.office.com/r/uaPscnDcuR

**8.** **MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

- HHP/2021/117
  Ty popty, Penygraigwen
  Cais llawn ar gyfer adeiladu porth Newydd (ebost 13/04/21 a 09/05/21 gyda rhagor o fanylion)

  *Dim gwrthwynebiad*

- VAR/2021/27 (ebost 09/05/21)
  Christ Church, Rhosybol
  Gwybodaeth pellach wedi ei gyflwyno ar y cais.
  Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (mynedfa a man parcio) o caniatad cynllunio FPL/2019/322 er mwyn diwygio'r man parcio i hepgor darparu trofwrdd.

  *Cario ymlaen gyda gwrthwynebiad cryf gan ail adrodd beth sydd wedi cael ei adrodd I gynllunio.*
  *-Wal yr eglwys wedi cael ei dynnu I lawr, oes hawl am hyn?*
  *-Dim digon o le I gar troi yn y man*
  *-Ddim yn saff ohwerydd rhesymau priffyrdd,*
  *-Pryder am y beddi yn mynd reit at yr Eglwys*
  *-Siom fod turntable oedd yn rhan o'r cais a cafodd ei basio rwan yn cael ei dynnu nol.*

- DAG/2021/11 (ebost 09/05/21)
  Pwllcoch Uchaf, Rhosybol
  Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol.
  *Dim sylwadau*

  VAR/2021/37
  Tegfryn, Penygraigwen
  Cais dan Adran 73 i dynnu amod (vi) (Deiliadaeth amaethyddol) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod T/2099 (Codi byngalo amaethyddol
  *Dim gwrthwynebiad*

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- HHP/2021/67
  Engan Newydd, Rhosgoch
  Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu
  Caniatad

-DAG/2021/7
Llety, Rhosybol
Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol
Dim angen cais llawn

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

1) Mair Jones, Caban Mochel £125.00
2) Mari Evans – Cyflogaeth clerc Rhagfyr 2020 – Ebrill 2021 £1538.00 (5*307.60)
3) WO Jones, 2 arwydd Dim Ysmygu o fewn cae chwarae Rhosybol £42.00

*GM yn cynnig, GO yn eilio iawn I dalu*

10. **Unrhyw Fater Arall**

a) *Llythyr gwybodaeth gan Ventient gyda manylion o fferm wynt, y bwriad ganddynt ydy rhoi cais I mewn I estyn y fferm wynt am 10 mlynedd eto gyda dim newid i'r . Arian tuag at cronfa Trysglwyn yn mynd I gynyddu.*

   *Pwynt cyswllt o fewn y llythyr os oes gan unrhywun ymholiad am y cynllun.*

   *ME yn datgan fod busnes fferm y teulu wedi prynu'r tir o gwmpas y fferm wynt, ond ddim y tir mae'r melinau arnynt. Ni does gan busnes teuluol ME unrhyw gyswllt gyda Ventient heblaw eu bod nhw yn mynd trwy'r tir i gael mynedfa, felly er bod dim angen datgan diddordeb, ME yn cynnig y wybodaeth o rhan fod yn agored i bawb.*

b) *RH – Cae chwarae Rhosybol, nifer mawr yn ei ddefnyddio ar adegau, ydy hi yn bosib edrych i fewn i gael rhagor o byrddau a meinciau i'r safle. (Cronfa Trysglwyn)*

c) *Er gwybodaeth bydd Huw Edwards yn sefyll lawr fel cadeirydd yn y cyfarfod blynyddol nesaf.*

*Cyfarfod Nesaf – 7fed Mehefin 2021*